| | | | NEGYDDOL<br>• Anhapus/eiddigeddus am ei fod yn teimlo y bydd ei frawd yn cael mwy o sylw<br>• Anhapus/eiddigeddus am y bydd rhaid iddo rannu ei rieni<br>• Anhapus/eiddigeddus y bydd rhaid iddo rannu ei ystafell, teganau ac ati | **(5)** |
| | **(d)** | **(i)** | Oedolaeth ganol | **(1)** |
| | | **(ii)** | **(1 x 2) am nodi newid**<br>**(2 x 2) am esboniad**<br>FFACTORAU:<br>• Gorffen smygu — gwell iechyd, mwy ffit<br>• Ymarfer — mwy ffit, llai tebygol o fod yn sâl<br>• Diwedd y mislif — effeithiau corfforol | **(6)** |
| | | **(iii)** | **Am farc llawn dylid cael disgrifiad o un effaith, fel ar esgyrn a chyhyrau.**<br>**(1) nodi (cyhyrau neu esgyrn)**<br>**(1) esboniad o effaith**<br>Cyhyrau:<br>• Byddent yn cryfhau/cynnal eu nerth/araf gwanhau<br>Esgyrn:<br>• Byddent yn gryfach/llai tebygol o dorri neu gael osteoporosis | **(2)** |
| | | **(iv)** | **Am farc llawn dylai ymgeiswyr ystyried effaith gadarnhaol a negyddol ar dri maes datblygiad.**<br>**(2) am bob un o'r pedwar maes datblygiad (un am effaith gadarnhaol, un am effaith negyddol ym mhob maes)**<br>Datblygiad Corfforol:<br>• *Cadarnhaol* — cadw Mary'n ifanc/gweithgar<br>• *Negyddol* — blino Mary<br>Datblygiad Deallol:<br>• *Cadarnhaol* — Efallai y bydd rhaid i Mary dysgu sgiliau newydd er mwyn gofalu am Jack<br>• *Negyddol* — Efallai y bydd Mary'n colli'r cyfle i ddilyn ei diddordebau ei hun | |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | | | Datblygiad Emosiynol:<br>• *Cadarnhaol* — Bydd Mary'n cael mwynhad o'i chyswllt â'i hŵyr<br>• *Negyddol* — Efallai y gall Mary deimlo ei bod hi'n cael ei defnyddio gan ei merch<br>Datblygiad Cymdeithasol:<br>• *Cadarnhaol* — Bydd Mary'n mwynhau cwmni ei hŵyr/ cwrdd â phobl newydd trwy siarad ag ef<br>• *Negyddol* — Efallai y bydd Mary'n colli'r cyfle i gwrdd â phobl eraill am ei bod hi'n treulio ei hamser gyda Jack. | **(8)** |
| | | | **Cyfanswm marciau am Gwestiwn 1** | **36 marc** |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| 2 | (a) | | **(1) am enghraifft berthnasol**<br>**(2) am esboniad cywir sy'n nodi ei fod yn ystyried pob agwedd ar les — corfforol, emosiynol, cymdeithasol, ysbrydol a gwybyddol ac ati** | **(3)** |
| | (b) | (i) | **(1 x 2)**<br>• Cynnydd mewn smygu, cymryd alcohol a chyffuriau<br>• Nifer y plant sy'n cymryd alcohol wedi dyblu | **(2)** |
| | | (ii) | **(1) oed 11 = 95%**<br>**(1) oed 15 = 51%** | **(2)** |
| | (c) | | **Nodi'r ddau nod arall ac yn diffinio/disgrifio/esbonio rhyw ffactor ychwanegol am bob un**<br>**(0–2) mwyafswm o ddau nod wedi eu nodi yn unig (naill ai cadarnhaol neu negyddol)**<br>**(3-4) dau nod wedi eu hesbonio'n gywir (naill ai cadarnhaol neu negyddol)**<br>NODAU (e.e.)<br>Gwneud pobl yn fwy ymwybodol o faterion iechyd; syniad y dylai pobl gymryd mwy o ofal amdanynt eu hunain/bydden nhw'n deall mwy am iechyd<br>• Helpu i rwystro salwch; syniad y bydden nhw'n deall beth sy'n achosi clefyd/salwch/yn eu hannog i gymryd mesurau ataliol | **(4)** |
| | (ch) | (i) | CYMDEITHASOLEGOL — Anelu at gymdeithas ac yn effeithio pob unigolyn | **(2)** |
| | | (ii) | ADDYSGOL/YMDDYGIADOL — yn esbonio problem ac yn newid ymddygiad | **(2)** |
| | | (iii) | **Lefel un (1–3 marc)**<br>Mae ymgeiswyr yn debygol o ystyried un dull yn unig a rhoi rheswm dros iddo fod naill ai'n llwyddiannus neu'n aflwyddiannus.<br>**Lefel dau (4–6 marc)**<br>Efallai y bydd ymgeiswyr yn ystyried dau ddull ac am bob un yn ystyried yn unig a yw'n llwyddiannus neu'n aflwyddiannus. Neu gallant ystyried un dull yn unig ond rhoi rhesymau dros iddo fod yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus.<br>**Lefel tri (7–9 marc)**<br>Dylai ymgeiswyr ystyried y ddau ddull ac am bob dull ystyried a allai fod yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus. | |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | | | Y ddau ddull yw:<br>CYMDEITHASOLEGOL<br>• Llwyddiannus oherwydd ei fod yn ei gwneud hi'n anodd anwybyddu os yw ymgyrch yn bwerus/digon mawr/wedi cael cyhoeddusrwydd eang<br>• Llwyddiannus os daw'n anghyfreithlon i brynu alcohol<br>• Aflwyddiannus os yw arddegwyr yn credu ei bod yn ffasiynol torri'r gyfraith<br>• Aflwyddiannus os yw'n anodd ei orfodi<br>ADDYSGOL/YMDDYGIADOL:<br>• Llwyddiannus os yw arddegwyr yn deall peryglon yfed<br>• Llwyddiannus os caiff arddegwyr eu hannog i wneud pethau eraill<br>• Aflwyddiannus os yw arddegwyr yn ei chael hi'n anodd anwybyddu pwysau cyfoedion<br>• Aflwyddiannus os yw arddegwyr yn credu mai oedolion/pobl dda sy'n dweud wrthyn nhw beth dylen nhw ei wneud | **(9)** |
| | | | **Cyfanswm marciau am Gwestiwn 2** | **24 marc** |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| **3** | **(a)** | **(i)** | **(1 x 2) am nodi dau ddarn o dystiolaeth**<br>• Pwysau gwaed uchel<br>• Drwgdybiaeth o angina<br>• Teimlo'n anhwylus<br>• Nid yw'n bwyta'n iawn<br>• Ychydig o ymarfer | **(2)** |
| | | **(ii)** | **Ymateb lefel un (1–4 marc)**<br>Bydd ymgeiswyr yn ôl pob tebyg yn cyfiawnhau dau neu dri ffactor yn unig ar y lefel hon ac ni fyddant yn cynnig llawer o esboniad.<br>**Ymateb lefel dau (5–7 marc)**<br>Dylai ymgeiswyr gynnig esboniad perthnasol am ddau neu dri ffactor.<br>**Ymateb lefel tri (8–10 marc)**<br>Ar y lefel hon yn ogystal â nodi ffactorau gydag esboniad perthnasol da, dylai fod peth manylion ychwanegol yn yr esboniad. I ennill marc llawn dylai fod rhyw awgrym y byddai'r tri gyda'i gilydd yn ffactor pwysig sy'n cyfrannu at gyflwr gwael Peter.<br>e.e. FFACTORAU<br>• Nid yw'n ymarfer llawer/yr unig ffurf ar ymarfer yw pan fydd yn cerdded i'r gwaith/mae ymarfer yn help i gadw pwysau i lawr/llosgi rhagor o galorïau/gwella'r system cardioresbiradol<br>• Nid yw'n cymryd cinio/nid yw'n cael prydau iawn/syniad bod diet gwael fel arfer yn cynnwys llawer o fraster/cysylltiad â chlefyd y galon<br>• Syniad o fod yn rhy brysur/swydd heriol/yn arwain at straen/cysylltu'r uchod â phwysau gwaed uchel neu glefyd y galon | **(10)** |
| | **(b)** | **(i)** | Mae Peter yn gweithio oriau hir; nid oes ganddo lawer o amser i'w wario gyda'i wraig | **(2)** |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | | **(ii)** | **(2) am bob un o’r tri maes datblygiad (un am y newid yn null o fyw Peter ac un am sut mae’n effeithio ei wraig)**<br>Datblygiad Corfforol:<br>• *Newid* — Peter yn gweithio llai/nid mor galed/yn bwyta’n rhesymol/yn ymarfer mwy<br>• *Effaith* — Gall iechyd ei wraig wella/efallai y bydd hi’n teimlo’n well am eu bod yn gwneud y pethau hyn gyda’i gilydd<br>Datblygiad Deallol:<br>• *Newid* — Mae gan Peter fwy o amser am hobïau deallol/yn dysgu sgiliau newydd<br>• *Effaith* — Efallai y bydd ei wraig yn cymryd at yr hobïau hyn gydag ef/yn dysgu sgiliau newydd gyda’i gilydd<br>Datblygiad Emosiynol:<br>• *Newid* — Efallai y bydd gan Peter briodas fwy hapus gan fod mwy o amser ganddo<br>• *Effaith* — Efallai y bydd gan ei wraig briodas fwy hapus gan eu bod yn treulio mwy o amser gyda’i gilydd<br>Datblygiad Cymdeithasol:<br>• *Newid* — Gallai Peter gymryd at hobïau eraill a chymdeithasu mwy gydag eraill<br>• *Effaith* — Gall ei wraig fod yn hapusach am y gallan nhw gymdeithasu mwy gydag eraill | **(6)** |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | (c) | | **Ymateb lefel un (1–4 marc)**<br>Dylai ymgeiswyr allu gwneud rhyw sylw o blaid neu yn erbyn y gosodiad, ond ni fyddant yn ôl pob tebyg yn ystyried y ddwy ddadl neu'n sôn am y ddadl natur/meithrin.<br>**Ymateb lefel dau (5–7 marc)**<br>Dylai ymgeiswyr nodi rhai newidiadau a nodi perthynas y rhain â gwelliant yn null o fyw Peter. Dylen nhw gyfeirio at y ddadl natur/meithrin, ond nid o anghenraid â'r enw.<br>**Ymateb lefel tri (8–10 marc)**<br>Disgwylir i ymgeiswyr roi dwy ochr y ddadl, yn ychwanegol at y pwyntiau am Ymateb lefel dau . Dylai fod dealltwriaeth glir o natur y ddadl natur/meithrin, gyda'r termau wedi'u diffinio'n gywir am farc llawn.<br>**Diffiniadau:**<br>Natur — nodweddion wedi eu pennu gan enynnau/o'r rhieni<br>Meithrin — nodweddion wedi eu pennu gan yr amgylchedd/ profiadau yn ystod bywyd<br>**Gwerthuso**<br>• Datganiad yn (bennaf) yn anghywir<br>• Iechyd yn ddibynnol ar agweddau genynnol ac amgylcheddol<br>• Cydnabod y gall angina/clefyd y galon redeg mewn teuluoedd<br>• Newid dull o fyw/ffactorau sosioeconomaidd yn gallu gwneud gwahaniaeth | **(10)** |
| | | | **Cyfanswm marciau am Gwestiwn 3** | **30 marc** |
| | | | **CYFANSWM MARCIAU AM Y PAPUR** | **90 marc** |

## Dosbarthiad maes cynnwys

### Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol

| | Maes cynnwys | | |
|---|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **1.1** | **1.2** | **1.3** |
| **1 a i)** | 1 | | |
| **ii)** | 2 | | |
| **b i)** | 1 | | |
| **ii)** | 4 | | |
| **c i)** | 1 | | |
| **ii)** | 5 | | |
| **ch)** | 5 | | |
| **d i)** | 1 | | |
| **ii)** | | 6 | |
| **iii)** | | 2 | |
| **iv)** | 4 | 4 | |
| **2 a)** | | | 3 |
| **b i)** | | | 2 |
| **ii)** | | | 2 |
| **c)** | | | 4 |
| **c i)** | | | 2 |
| **ii)** | | | 2 |
| **iii)** | | | 9 |
| **3 a i)** | | 2 | |
| **ii)** | | 10 | |
| **b i)** | | 2 | |
| **ii)** | 3 | 3 | |
| **c)** | | 10 | |
| **Cyfanswm** | **27** | **39** | **24** |

## Dosbarthiad amcanion asesu

### Uned 1: Twf a Datblygiad Dynol

| | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 1** | 20 | 8 | 4 | 4 | **36** |
| **Cwestiwn 2** | 5 | 6 | 4 | 9 | **24** |
| **Cwestiwn 3** | 5 | 8 | 9 | 8 | **30** |
| **Cyfanswm marciau** | **30** | **22** | **17** | **21** | **90** |
| **%** | **33.33%** | **24.44%** | **18.89%** | **23.33%** | **100** |

### Dadansoddiad o'r papur

Mae'r targed cyffredinol am bob Amcan Asesu wedi ei seilio ar 30–40% am AA1, 20–30% am AA2, 15–25% am AA3 a 15–25% am AA4, fel y cytunwyd am Uned 1, sydd am bapur â 90 o farciau'n rhoi:

30 marc am AA1

22 marc am AA2

17 marc am AA3

21 marc am AA4

# Cynllun marcio

# Edexcel TAG mewn
# Iechyd a Gofal Cymdeithasol

# Uned 4:
# Agweddau Cymdeithasol a Dewisiadau Dull o Fyw

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| **1** | **(a)** | **(i)/ (ii)** | **(1)** marc am bob ffactor a nodir **(1 x 2)** a **(2 x 2)** am y disgrifiad o'r ffactorau a nodwyd.<br>Bydd yn dewis o:<br>• dylanwad tad-cu/taid<br>• mam yn gweithio<br>• marwolaeth tad.<br>Caniatewch ddatblygiadau cadarnhaol neu negyddol o'r ffactorau.<br>e.e. mam yn gweithio **(1)** — mae hyn yn golygu ei bod wedi ennill incwm i'r teulu **(1)** a gallai Gill fod wedi gallu cael diet da a thyfu i'w normau disgwyliedig **(1)**. | **(3+3) (6)** |
| | **(b)** | | **Ymateb lefel un (1–2 marc)**<br>Mae'r ymgeisydd yn gwneud rhai datganiadau am gymdeithasoli e.e. caiff ymddygiad pobl ei ddylanwadu gan eraill. Mae rhieni/ffrindiau'n dylanwadu arnon ni. Nid yw'r esboniad yn gwbl amlwg.<br>**Ymateb lefel dau (3–4 marc)**<br>Tystiolaeth glir o esboniad.<br>Diffiniad cywir.<br>Mae cymdeithasoli yn ymwneud â dod yn fod cymdeithasol sy'n digwydd trwy ryngweithio rhwng person a'r rhai o'i gwmpas.<br>Yn debygol o ddefnyddio enghraifft i esbonio. Gall wahaniaethu rhwng cymdeithasoli 'cynradd' ac 'eilaidd', er nad yw hyn yn angenrheidiol i gael marc llawn. | **(4)** |
| | **(c)** | | **Ymateb lefel un (0–3 marc)**<br>Ymateb lefel isel.<br>Yn debygol o nodi un neu ddau ffactor o'r wybodaeth neu o fan arall am ddewisiadau dull o fyw. Yn annhebygol o asesu effaith y ffactorau hyn ar iechyd a lles John.<br>**Ymateb lefel dau (4–7 marc)**<br>Ymateb lefel ganolig.<br>Ar waelod yr ystod mae ymgeiswyr yn debygol o ganolbwyntio ar bwyntiau o wybodaeth a dangos sut gall y dewisiadau dull o fyw hyn effeithio ar iechyd a lles John. Ar ben uchaf yr ysgol mae'r ymgeisydd yn debygol o ddefnyddio dewisiadau eraill posibl o ddull o fyw ac asesu sut gallai'r rhain effeithio John. Mae sgiliau asesu'n bresennol.<br>Mae angen mwy na dau ffactor. | |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Ymateb lefel tri (8–10 marc)**<br>Ymateb lefel uchel.<br>Mae asesiad da'n amlwg ac mae'r ymgeisydd yn defnyddio ffactorau o'r wybodaeth **ac** o fan arall.<br>Call y ffactorau fod yn:<br>• Dinesydd Gweithgar<br>• Diet synhwyrol<br>• Mynd am dro<br>• Cymdeithasoli Gill<br>Caniatewch unrhyw ddewisiadau eraill posibl o ddull o fyw sydd efallai wedi eu gwneud, e.e. priodi.<br>e.e. gweithio/ddim yn gweithio, datblygu cyfeillgarwch, gweithgareddau hamdden ac ati.<br>Gellir asesu ffactorau naill ai mewn ffordd gadarnhaol/negyddol neu'r ddwy. Mae angen pedwar ffactor. | **(10)** |
| | **(ch)** | | **Ymateb lefel un (0–4 marc)**<br>Ymateb lefel isel.<br>Mae'r ymgeisydd yn debygol o nodi un neu ddau ffactor o'r wybodaeth neu o fan arall am ddigwyddiadau rhagweladwy a/neu annisgwyl. Mae'r ymgeisydd yn annhebygol o archwilio effeithiau'r digwyddiadau hyn ar iechyd a lles Gill.<br>**Ymateb lefel dau (4–7 marc)**<br>Ymateb lefel ganolig.<br>Ar waelod yr ystod mae'r ymgeiswyr yn debygol o ganolbwyntio ar bwyntiau o'r wybodaeth ac archwilio effeithiau posibl y rhain ar iechyd a lles Gill.<br>Ar ben yr ystod mae'r ymgeisydd yn debygol o ddefnyddio digwyddiadau rhagweladwy neu annisgwyl eraill posibl ac archwilio eu heffeithiau posibl.<br>Mae sgiliau asesu'n bresennol.<br>Mae angen mwy na dau ffactor. | |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Ymateb lefel tri (8–10 marc)**<br>Ymateb lefel uchel.<br>Mae asesiad da'n amlwg iawn ac mae'r ymgeisydd yn defnyddio gwybodaeth o'r wybodaeth **ac** o fan arall.<br>Gall ffactorau fod yn:<br>• Mynychu'r ysgol<br>• Marwolaeth tad<br>• Mam yn gweithio<br>• Symud i ffwrdd o'r cartref<br>• Mynd i'r Brifysgol<br>• Cael swydd ran-amser<br>Caniatewch unrhyw ddigwyddiadau rhagweladwy neu annisgwyl posibl eraill a allai effeithio ar Gill.<br>Gellir archwilio digwyddiadau naill ai mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol neu'r ddwy. Mae angen pedwar ffactor. | **(10)** |
| | | | **Cyfanswm marciau am Gwestiwn 1** | **30 marc** |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| 2 | (a) | (i)/ (ii)/ (iii) | Dau farc am esbonio sut mae pob un o'r gwelliannau wedi eu gweithredu **(3 x 2)**. Dylai pob esboniad gynnwys dau bwynt **(1 x 2)**<br>Gwelliannau:<br>• gweithredu'r sail gwerthoedd gofal<br>• rhoi grym i ddefnyddwyr gwasanaeth<br>• adeiladu hunan-barch defnyddwyr gwasanaeth.<br>e.e. adeiladu hunan-barch: trwy esbonio i ddefnyddwyr gwasanaeth eu rhinweddau da **(1)** a sut mae hyn yn eu gwneud yn berson diddorol (**1**). | **(2+2+2) (6)** |
| | (b) | (i)/ (ii) | Caniatewch unrhyw ymatebion priodol:<br>e.e.<br>• y ffordd y caiff teganau eu dosbarthu<br>• defnyddio iaith<br>• modelu rôl<br>• rhyngweithiad staff a chleientiaid<br>**(1 x 2)** | **(1+1) (2)** |
| | (c) | | **Ymateb lefel un (1–2 marc)**<br>Yn gwneud rhai gosodiadau am y sail gwerthoedd gofal.<br>e.e. cyfrinachedd, dewis, urddas ac ati<br>Nid yw'r esboniad yn gwbl amlwg.<br>**Ymateb lefel dau (3–4 marc)**<br>Tystiolaeth glir o esboniad.<br>Gwybodaeth dda am y sail gwerthoedd gofal a'r materion o gwmpas hyn.<br>Gall ddefnyddio enghreifftiau i esbonio'r cysyniad. | **(4)** |
| | (ch) | | **(1 x 2)** marc am bob dull o roi grym a nodir<br>**(2 x 2)** am y disgrifiad o'r dulliau a nodir.<br>• Dulliau wedi eu nodi<br>Rhoi gwybodaeth, esbonio'r dewisiadau sydd ar gael, trafod materion gyda'r unigolyn, trefnu cyswllt ag arbenigwyr (caniatewch unrhyw ddewisiadau synhwyrol)<br>• Disgrifiad o'r dulliau (enghraifft)<br>Gallai'r gweithiwr gofal drafod yr amrywiol faterion gyda'r defnyddiwr gwasanaeth. Byddai hyn yn codi eu lefelau o ddealltwriaeth **(1)** byddai'r defnyddiwr gwasanaeth mewn sefyllfa i allu dewis ar sail gwybodaeth **(2)**. | **(3+3) (6)** |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | (d) | | **Ymateb lefel un (0–3 marc)**<br>Ymateb lefel isel.<br>Yn debygol o fod â syniad niwlog am hunansyniad. Yn annhebygol o gysylltu hyn â defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Nid oes asesiad clir yn amlwg.<br>**Ymateb lefel dau (4–6 marc)**<br>Ymateb lefel ganolig.<br>Ar waelod yr ysgol mae peth asesiad yn amlwg am **hunansyniad** er bod hyn yn dueddol o fod ymhlyg. Mae'r ymgeisydd yn dangos yn glir beth yw **hunansyniad**. Ar ben uchaf yr ystod mae asesiad yn fwy clir, er nad yw bob tro'n ymwneud â defnyddio'r gwasanaethau iechyd a/neu wasanaethau gofal cymdeithasol.<br>**Ymateb lefel tri (9–12 marc)**<br>Ymateb lefel uchel.<br>Mae asesiad da yn gwbl amlwg a chlir. Mae'n debygol o gysylltu hyn â defnyddio un neu ragor o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. | **(12)** |
| | | | **Cyfanswm marciau am Gwestiwn 2** | **30 marc** |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| 3 | (a) | (i)/ (ii) | Un marc am bob ffactor a nodir **(1 x 2)** a **(2 x 2)** am y disgrifiadau o'r ffactorau a nodir; ffactorau cymdeithasol<br>• problemau iechyd meddwl<br>• anghydbwysedd rhyw wrth staffio<br>• mwy na phedwar deg o ddefnyddwyr gwasanaeth yr wythnos<br>• wedi ei leoli mewn ardal canol dinas<br>• defnyddwyr gwasanaeth â lefelau isel o incwm<br>• defnyddwyr gwasanaeth yn byw mewn tlodi cymharol.<br>e.e. mwy na phedwar deg o ddefnyddwyr gwasanaeth **(1)** Rhaid i'r ysbyty drefnu amrywiaeth o weithgareddau **(1)** oherwydd amrywiaeth anghenion tebygol nifer fawr o ddefnyddwyr gwasanaeth **(1)**. | **(6)** |
| | (b) | | **Ymateb lefel un (1–2 marc)**<br>Mae'r ymgeisydd yn trafod perthnasoedd teulu cynhaliol. Gall yr esboniad fod yn aneglur ac efallai na ddefnyddir enghraifft. Ar brydiau efallai mai enghraifft yw'r unig dystiolaeth a gynigir. Ychydig o esboniad.<br>**Ymateb lefel dau (3–4 marc)**<br>Mae'r ymgeisydd yn deall yn glir beth yw perthnasoedd teulu cynhaliol. Mae esboniad clir, sy'n gywir. Caiff enghraifft ei chyflwyno i gefnogi'r esboniad. | **(4)** |
| | (c) | | **Ymateb lefel un (0–2 marc)**<br>Ymateb lefel isel.<br>Mae gan ymgeiswyr beth ymwybyddiaeth o'r hyn yw tlodi cymharol.<br>Mae'n debygol bod dryswch ar ben isaf y band.<br>Sonnir am un neu ddau bwynt ar broblemau posibl ond ni chânt eu trafod yn iawn.<br>**Ymateb lefel dau (3–5 marc)**<br>Ymateb lefel ganolig.<br>Mae ymgeiswyr yn ymwybodol o'r hyn yw tlodi cymharol.<br>Mae ymgeiswyr yn gallu nodi problemau posibl a'u trafod. Mae'n debygol bod enghreifftiau'n cael eu dewis. Bydd yr ateb yn ymwneud yn glir â defnyddwyr gwasanaeth yn Ysbyty Dydd Brynderw<br>Trafodir mwy na dwy broblem. | |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Ymateb lefel tri (6–8 marc)**<br>Ymateb lefel uchel.<br>Mae ymgeiswyr yn gallu trafod yn llawn y problemau posibl o fyw mewn tlodi cymharol am ddefnyddwyr gwasanaeth am wendidau Ysbyty Dydd Brynderw. Mae'n debygol eu bod yn cysylltu hyn â defnyddwyr gwasanaeth. Trafodir pedair problem<br>• Diffyg cyllid i ddefnyddio gwasanaethau<br>• Hunan-barch isel<br>• Heb rym<br>• Dull o fyw llai iach | **(8)** |
| | **(ch)** | | **Ymateb lefel un (0–2 marc)**<br>Ymateb lefel isel.<br>Mae gan ymgeiswyr syniad niwlog am gydraddoldeb ac amrywiaeth a pham mae'n bwysig parchu gwahaniaeth mewn sefyllfaoedd gofal. Gall dryswch fod yn amlwg. Efallai'n nodi un neu ddwy ffordd o ddatblygu ymarferwyr gofal yn eu gwaith. Ychydig o drafodaeth. Gall gyflwyno rhestr.<br>**Ymateb lefel dau (3–4 marc)**<br>Ymateb lefel ganolig.<br>Mae gan ymgeisydd afael weddol ar gwestiynau ac mae'n nodi ffyrdd o ddatblygu staff. Caiff y rhain eu trafod yn weddol fanwl.<br>Trafodir dwy ffordd.<br>**Ymateb lefel tri (5–6 marc)**<br>Ymateb lefel uchel.<br>Mae ymgeiswyr yn gallu trafod yn llawn ffyrdd o ddatblygu staff i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Maent yn gallu gweld, yn fanwl, y problemau, a allai ddigwydd wrth wneud hyn ac maent yn cwestiynu a fydd y dulliau a gynigir yn gweithio.<br>Gall ymgeiswyr ganolbwyntio ar un neu ragor o osodiadau.<br>Yn debygol o ddefnyddio:<br>• Hyfforddiant staff —mewnol/allanol.<br>• Rhaglen gyflwyno.<br>• Rheolwyr i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn weithgar.<br>Caniatewch unrhyw ddull ymarferol a chywir a gynigir.<br>Trafodir tair ffordd.<br>Mae marciau llawn ar gael i'r rhai sy'n canolbwyntio ar un gosodiad yn unig. | **(6)** |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | **(d)** | | **Ymateb lefel un (0–2 marc)**<br>Ymateb lefel isel.<br>Mae ymgeiswyr yn dangos syniad niwlog am yr hyn yw stereoteipio. Mae dryswch yn amlwg. Gall ymatebion fod ar ffurf rhestr a chynigir golwg cyfyngedig o'r canlyniadau.<br>Nodir un neu ddau ganlyniad.<br>**Ymateb lefel dau (3–4 marc)**<br>Ymateb lefel ganolig.<br>Mae gan ymgeiswyr afael weddol ar ganlyniadau stereoteipio a sut y gallai effeithio defnyddwyr gwasanaeth. Mae ymgeiswyr yn gallu cysylltu hyn ag un neu ragor o sgiliau gofal.<br>Trafodir un neu ddau ganlyniad.<br>**Ymateb lefel tri (5–6 marc)**<br>Ymateb lefel uchel.<br>Mae ymgeiswyr yn gallu trafod yn llawn ganlyniadau stereoteipio negyddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Dangosir lefel dda o 'ddealltwriaeth' i sut y mae defnyddwyr gwasanaeth yn gallu teimlo. Mae canlyniadau stereoteipio'n amlwg.<br>Yn debygol o ddefnyddio:<br>• effaith ar hunan-barch<br>• effaith ar **hunansyniad**<br>• lefel cyrhaeddiad<br>• gall iechyd corfforol gael ei effeithio<br>• gall iechyd meddyliol gan ei effeithio<br>Caniatewch unrhyw ateb priodol.<br>Gall defnyddio un neu ragor o osodiadau gofal.<br>Trafodir tri chanlyniad.<br>Mae marciau llawn ar gael i'r rhai sy'n canolbwyntio ar un gosodiad yn unig. | **(6)** |
| | | | **Cyfanswm marciau am Gwestiwn 3** | **30 marc** |
| | | | **CYFANSWM MARCIAU AM Y PAPUR** | **90 marc** |

## Dosbarthiad maes cynnwys

### Uned 4: Agweddau Cymdeithasol a Dewisiadau Dull o Fyw

| | Maes cynnwys | | |
|---|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **4.1** | **4.2** | **4.3** |
| **1 a i)** | | 3 | |
| **ii)** | | 3 | |
| **b)** | 4 | | |
| **c)** | 5 | 5 | |
| **d)** | 5 | 5 | |
| **2 a i)** | | | 2 |
| **ii)** | | | 2 |
| **iii)** | | | 2 |
| **b i)** | | | 1 |
| **ii)** | | | 1 |
| **c)** | | | 4 |
| **ch i)** | | | 3 |
| **ii)** | | | 3 |
| **d)** | | | 12 |
| **3 a i)** | | 3 | |
| **ii)** | | 3 | |
| **b)** | 4 | | |
| **c)** | | 8 | |
| **ch)** | | | 6 |
| **d)** | | | 6 |
| **Cyfanswm** | **18** | **30** | **42** |

## Gridiau Amcanion Asesu

### Uned 4: Agweddau Cymdeithasol a Dewisiadau Dull o Fyw

| | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 1** | 8 | 7 | 10 | 5 | **30** |
| **Cwestiwn 2** | 11 | 11 | 5 | 3 | **30** |
| **Cwestiwn 3** | 9 | 7 | 6 | 8 | **30** |
| **Cyfanswm marciau** | **28** | **25** | **21** | **16** | **90** |
| **%** | **31.11%** | **27.78%** | **23.33%** | **17.78%** | **100** |

### Dadansoddiad o'r papur

Mae'r targed cyffredinol am bob Amcan Asesu wedi ei seilio ar 30–40% am AA1, 20–30% am AA2, 15–25% am AA3 a 15–25% am AA4, fel y cytunwyd am Uned 4, sydd am bapur â 90 o farciau'n rhoi:

28 marc am AA1

25 marc am AA2

21 marc am AA3

16 marc am AA4

# Cynllun marcio

# Edexcel TAG mewn

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol

# Uned 7:
# Diwallu Anghenion Unigol

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| 1 | (a) | | **(1 x 2) am nodi'n gywir:**<br>• Adnabod **(1)**<br>• Asesiad cychwynnol/ymchwiliad **(1)**<br>• Asesu a chynllunio **(1)**<br>• Gweithredu arolwg **(1)**<br>• Arwain at adferiad **(1)**<br>• Arwain at wahanu **(1)**<br>• Datgyweddiad **(1)** | **(2)** |
| | (b) | | **(1) am ddisgrifiad cryno fel:**<br>• Defnyddir y term ar gyfer pob un o saith cam y cylch cynllun gofal.<br>**(2) am ddatblygiad cywir fel:**<br>• Mae asesiad a rheoli gofal yn ffurfio un broses gyfannol ar gyfer adnabod anghenion unigol a rhoi sylw iddynt | **(2)** |
| | (c) | | **(2x 2) am roi ac esbonio unrhyw ddau o'r buddion canlynol:**<br>• Maent yn unigryw i amgylchiadau unigolyn<br>• Bydd y gwasanaethau a roddir yn briodol i anghenion yr unigolyn<br>• Caiff yr unigolyn rym i gymryd rhan mewn penderfyniadau am ei ofal/gofal<br>• Cynigir mwy o ddewis i'r unigolyn<br>• Mwy o hyblygrwydd mewn darpariaeth gwasanaethau<br>(rhoddir esboniad gan ddefnyddio gwybodaeth a roddir yn y cwestiwn) | **(4)** |
| | (ch) | | **(1 x 2) am nodi dau angen yn gywir e.e.**<br>• Anghenion gofal personol a chymdeithasol<br>• Anghenion corfforol<br>• Anghenion diwylliannol a chrefyddol<br>• Anghenion cludiant a hygyrchedd<br>• Anghenion ariannol<br>• Anghenion cyflogaeth/addysgol a hamdden.<br>**(2 x 2) am ddisgrifiad llawn a chywir o'r anghenion a nodir** | **(6)** |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | (d) | | **Ymateb lefel un (0–2 marc)** Bydd yr atebion a roddir yn gryno a niwlog. Efallai mai pwyntiau'n unig a nodir.<br>**Ymateb lefel dau (3–5 marc)** Bydd yr atebion a roddir yn disgrifio ac yn esbonio pwyntiau a godir. Nid oes cyswllt yn amlwg rhwng pwyntiau<br>**Ymateb lefel tri (6–8 marc)** Ateb wedi ei ddatblygu'n dda gyda'r pwyntiau wedi'u hesbonio'n llawn. Cyswllt/cydlyniad da rhwng pwyntiau. Defnydd da o eirfa alwedigaethol. | |
| | | | Gall y pwyntiau a godir gan ymgeiswyr gynnwys:<br>• Helpu'r unigolyn i ddeall ei hawliau<br>• Helpu'r unigolyn i ddatblygu sgiliau i fynegi ei d/dymuniadau<br>• Hyrwyddo annibyniaeth<br>• Rhoi grym i'r unigolyn<br>• Codi hunan-barch<br>• Cynyddu cyfranogiad y defnyddiwr | **(8)** |
| | (dd) | | **Ymateb lefel un (0–2 marc)** Bydd yr atebion a roddir yn gryno a niwlog. Efallai mai pwyntiau'n unig a nodir.<br>**Ymateb lefel dau (3–5 marc)** Bydd yr atebion a roddir yn disgrifio ac yn esbonio pwyntiau a godir. Nid oes cyswllt na chydbwysedd rhwng cryfderau a gwendidau sydd i'w gweld rhwng pwyntiau<br>**Ymateb lefel tri (6–8 marc)** Ateb wedi ei ddatblygu'n dda gyda'r pwyntiau wedi'u hesbonio'n llawn. Cyswllt/cydlyniad da rhwng pwyntiau. Defnydd da o eirfa alwedigaethol. Cydbwysedd da, gall weld y ddwy ochr wrth gydnabod hawliau defnyddwyr gwasanaeth.<br>MANTEISION<br>• Yn cydnabod amrywiaeth o fewn cymdeithas<br>• Yn myfyrio ar y sail gwerthoedd gofal — arfer gwrth-ormesol<br>• Yn cwrdd â gofynion deddfwriaeth cydraddoldeb<br>• Yn darparu gwasanaeth a arweinir gan anghenion<br>• Y defnyddiwr yn cyfranogi<br>ANFANTEISION<br>• Gormesu, anfanteisio a chamwahaniaethu<br>• Gwasanaeth o ansawdd isel<br>• Datblygu perthnasoedd ymarferwr/defnyddiwr gwael<br>• Gwrthod dewis a chyfle i'r defnyddiwr. | **(8)** |
| | | | **Cyfanswm marciau am Gwestiwn 1** | **30 marc** |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| 2 | (a) | | **(1) am ddiffiniad cryno fel**<br>• Amrywiaeth o bobl broffesiynol yn gweithio ynghyd<br>**(2) am ddiffiniad llawn fel**<br>• Amrywiaeth o bobl broffesiynol â gwahanol hyfforddiant proffesiynol yn cael eu cyflogi gan un neu ragor o asiantaethau'n cwrdd yn rheolaeth i gyd-drefnu eu gwaith gan roi gwasanaethau i un neu ragor o gleientiaid | **(2)** |
| | (b) | | **(2 x 1) am nodi ac esbonio'n llawn un o'r pwyntiau canlynol**<br>• Dull holistig at ofal gyda'r cleient yn y canol<br>• Defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau<br>• Gwasanaethau a roddir yn sicrhau'r 'ffit gorau'<br>• Gellir monitro ac addasu gwasanaethau'n hawdd<br>• Gellir nodi a chyrchu/prynu gwasanaethau'n haws. | **(2)** |
| | (c) | (i) | **(2 x 1) am nodi ac esbonio'n llawn un o'r pwyntiau canlynol**<br>• Mesur y safon/meincnod<br>• Cynnal/gosod safonau<br>• System o wneud iawn/profiadau defnyddwyr yn cael eu cydnabod<br>• Gwerth am arian. | **(2)** |
| | | (ii) | **(1 x 2) am nodi mesur priodol fel**<br>• Holiaduron boddhad cwsmeriaid<br>• Siarteri/safonau<br>• Archwiliadau/gwerthusiadau<br>• Holiaduron<br>• Dadansoddiad cofnod achos<br>• Dadansoddiad ystadegol.<br>**(2 x 2) am esboniad llawn o bob mesur a nodir** | **(6)** |
| | (ch) | | **Ymateb lefel un (0–2 marc)** Bydd yr atebion a roddir yn gryno a niwlog. Efallai mai pwyntiau'n unig a nodir.<br>**Ymateb lefel dau (3–5 marc)** Bydd yr atebion a roddir yn disgrifio ac yn esbonio pwyntiau a godir. Nid oes cyswllt na chydbwysedd rhwng cryfderau a gwendidau sydd i'w gweld rhwng pwyntiau<br>**Ymateb lefel tri (6–8 marc)** Ateb wedi ei ddatblygu'n dda gyda'r pwyntiau wedi'u hesbonio'n llawn. Cyswllt/cydlyniad da rhwng pwyntiau. Defnydd da o eirfa alwedigaethol. Cydbwysedd da rhwng cryfderau a gwendidau. | |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | | | CRYFDERAU<br>• Wedi ei ddefnyddio fel meincnod i gymharu gwasanaethau dros gyfnod o amser<br>• Gwella/targedu/ailddefnyddio adnoddau a gweithlu<br>• Defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo bod iddynt werth<br>• Lleihau amserau a rhestrau aros<br>• Cost-effeithiol<br>• Defnyddir i newid agweddau.<br>GWENDIDAU<br>• Darpariaeth o ansawdd isel<br>• Camsyniadau/esgeuluso<br>• Gwastraffu adnoddau<br>• Ansawdd isel. | **(8)** |
| | **(d)** | | **Ymateb lefel un (0–3 marc)** Bydd atebion a roddir yn gryno a niwlog. Efallai y disgrifiant/esboniant un pwynt.<br>**Ymateb lefel dau (4–7 marc)** Bydd atebion a roddir yn disgrifio ac esbonio dau bwynt a godwyd. Dim cyswllt neu gydbwysedd i'w weld rhwng pwyntiau. Bydd nodi'r ffyrdd o oresgyn rhwystrau'n wan ac arwynebol.<br>**Ymateb lefel tri (8–10 marc)** Ateb wedi ei ddatblygu'n dda gyda'r pwyntiau wedi'u hesbonio'n llawn. Cyswllt/cydlyniad da rhwng pwyntiau. Defnydd da o eirfa alwedigaethol. Nodi'n dda sut y caiff rhwystrau eu goresgyn.<br>MATHAU O RWYSTRAU<br>• Corfforol<br>• Emosiynol<br>• Trefniadol<br>• Daearyddol<br>• Camwahaniaethu.<br>GORESGYN RHWYSTRAU<br>• Glynu wrth ddeddfwriaeth<br>• Gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaeth/cwynion<br>• Cael defnyddwyr gwasanaeth i gyfranogi<br>• Marchnata gwasanaethau/targedu gwasanaethau<br>• Polisïau<br>• Hyfforddiant ac addysg. | **(10)** |
| | | | **Cyfanswm marciau am Gwestiwn 2** | **30 marc** |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| 3 | (a) | | **(1 x 2) am ateb niwlog fel**<br>• Gelwir y sector cyhoeddus hefyd yn sector statudol<br>• Mae'r sector annibynnol yn cyfeirio at sector preifat neu wirfoddol<br>**(2 x 2) am ddiffiniad llawn**<br>• Sefydlwyd y Sector Cyhoeddus gan y gyfraith, gyda dyletswydd i ddarparu gwasanaeth penodol, wedi ei gyllido o drethiant cyhoeddus.<br>• Yn cyfeirio at y ddarpariaeth les a wneir gan y wladwriaeth.<br>Mae Sectorau Annibynnol yn ategu darpariaeth y sector statudol. Mae cyllido'r sectorau hyn yn amrywiol, fel ffioedd, cyfraniadau neu gontractau. Wedi cymryd mwy o ran mewn darpariaeth mewn blynyddoedd diweddar | **(4)** |
| | (b) | | **(2 x 1) o fanteision yn cael eu nodi a'u hesbonio**<br>• Mwy o ddewis i ddefnyddwyr gwasanaeth<br>• Mwy ymatebol i anghenion<br>• Mwy o hyblygrwydd yn yr ystod o wasanaethau a gynigir<br>• Mwy cost-effeithiol<br>**(2 x 1) o anfanteision yn cael eu nodi a'u hesbonio**<br>• System dwy haen neu enillwyr a chollwyr<br>• Nid oedd mor gost-effeithiol â'r hyn a gredwyd<br>• Mwy o fiwrocratiaeth a gweinyddiaeth<br>• Anwastadrwydd daearyddol | **(4)** |
| | (c) | | **Ymateb lefel un (0–2 marc)** Bydd atebion a roddir yn gryno a niwlog. Efallai y disgrifiant/esboniant un pwynt.<br>**Ymateb lefel dau (3–6 marc)** Bydd atebion a roddir yn disgrifio ac esbonio dau bwynt a godwyd. Dim cyswllt neu gydbwysedd i'w weld rhwng pwyntiau. Efallai y bydd ymgeiswyr yn trafod prif feysydd newid ond heb esbonio eu heffaith ar ddarpariaeth lles.<br>**Ymateb lefel tri (7–10 marc)** Ateb wedi ei ddatblygu'n dda gyda'r pwyntiau wedi'u hesbonio'n llawn. Cyswllt/cydlyniad da rhwng pwyntiau. Defnydd da o eirfa alwedigaethol.<br>Meysydd newid<br>• Symud tuag at blwraliaeth lles<br>• Y sector annibynnol yn cymryd mwy o ran<br>• Mwy o reolaeth ariannol ar wariant/dull monetaraidd<br>• Mwy o atebolrwydd o fewn y sector cyhoeddus<br>• Datblygu pŵer i gynulliadau lleol/cenedlaethol | |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith newid<br>• Datgymalu'r wladwriaeth les<br>• Gostwng ansawdd gwasanaethau trwy roi contractau allan<br>• Llai o ddewis i ddefnyddwyr gwasanaeth<br>• Costau cynyddol<br>• Stigma rhwng gwasanaethau cyhoeddus v. preifat<br>• Darpariaeth ar hap<br>• Annibynadwy | **(10)** |
| | **(ch)** | | **Ymateb lefel un (1–4 marc)** Bydd atebion a roddir yn gryno a niwlog. Efallai y disgrifiant/esboniant un-dau bwynt.<br>**Ymateb lefel dau (5–8 marc)** Bydd atebion a roddir yn disgrifio ac esbonio dau neu ragor o bwyntiau a godwyd. Dim cyswllt neu gydbwysedd i'w weld rhwng pwyntiau. Rhoddir ateb arwynebol.<br>**Ymateb lefel tri (9–12 marc)** Ateb wedi ei ddatblygu'n dda gyda'r pwyntiau wedi'u hesbonio'n llawn. Cyswllt/cydlyniad da rhwng pwyntiau. Defnydd da o eirfa alwedigaethol. Cydbwysedd da o fewn yr ateb.<br>CRYFDERAU<br>• Mwy o gystadleuaeth rhwng darparwyr<br>• Symbylu'r ddarpariaeth — dewis ac ati<br>• Ymateb i angen — dylanwadu ar y ddarpariaeth a chodi ymwybyddiaeth o broblem<br>• Mwy o hyblygrwydd<br>• Y sector gwirfoddol yn enwedig yn gallu datblygu integreiddiad cymdeithasol o fewn cymunedau lleol<br>• Mwy o atebolrwydd<br>GWENDIDAU<br>• Clytwaith o ddarpariaeth/yn anwastad yn ddaearyddol<br>• System ddarpariaeth dwy haen — mwy o anghydraddoldeb<br>• Ni all darparwyr bach lleol gystadlu â'r darparwyr cenedlaethol mwy<br>• Diffyg atebolrwydd — ansawdd yn dioddef<br>• Dyblygu gwasanaethau mewn sawl maes | **(12)** |
| | | | **Cyfanswm marciau am Gwestiwn 3** | **30 marc** |
| | | | **CYFANSWM MARCIAU AM Y PAPUR** | **90 marc** |

## Dosbarthiad maes cynnwys

### Uned 7: Diwallu Anghenion yr Unigolyn

| | Maes cynnwys | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **7.1** | **7.2** | **7.3** | **7.4** |
| **1 a)** | | 2 | | |
| **b)** | | 2 | | |
| **c)** | | 4 | | |
| **ch)** | | 6 | | |
| **d)** | | 8 | | |
| **dd)** | | 8 | | |
| **2 a)** | | | 2 | |
| **b)** | | | 2 | |
| **c i)** | | | | 2 |
| **ii)** | | | | 6 |
| **ch)** | | | | 8 |
| **d)** | | | 10 | |
| **3 a)** | 4 | | | |
| **b)** | 4 | | | |
| **c)** | 10 | | | |
| **ch)** | 12 | | | |
| **Cyfanswm** | **30** | **30** | **14** | **16** |

## Gridiau Amcanion Asesu

### Uned 7: Diwallu Anghenion yr Unigolyn

| | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 1** | 6 | 8 | 8 | 8 | **30** |
| **Cwestiwn** | 6 | 6 | 8 | 10 | **30** |
| **Cwestiwn 3** | 6 | 4 | 8 | 12 | **30** |
| **Cyfanswm marciau** | **18** | **18** | **24** | **30** | **90** |
| **%** | **20.00%** | **20.00%** | **26.67%** | **33.33%** | **100** |

### Dadansoddiad o'r papur

Mae'r targed cyffredinol am bob Amcan Asesu wedi ei seilio ar 10–30% am AA1, 20–30% am AA2, 25–35% am AA3 a 25–35% am AA4, fel y cytunwyd am Uned 4, sydd am bapur â 90 o farciau'n rhoi:

18 marc am AA1

18 marc am AA2

24 marc am AA3

30 marc am AA4

# Cynllun marcio

# Edexcel TAG mewn

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol

# Uned 12:
# Deall Ymddygiad Dynol

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| **1** | **(a)** | | **(1 x 2)**<br>• Sut rydyn ni’n teimlo amdanom ein hunain **(1)**<br>• Sut rydyn ni’n rhoi gwerth arnom ein hunain/rhan o’n **hunansyniad (1)** | **(2)** |
| | **(b)** | **(i)** | 6 | **(1)** |
| | | **(ii)** | 5 | **(1)** |
| | | **(iii)** | **(2 x 1)**<br>• Mae ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o locws rheoli e.e. pŵer i ddylanwadu ar ddeilliannau **(1)**<br>• Mae ymgeiswyr yn cysylltu hyn â rhoi’r gorau i smygu e.e. yn llai tebygol o ganfod esgusodion neu feio ffactorau allanol **(1)** | **(2)** |
| | **(c)** | **(i)** | **Ymateb lefel un (0–2 marc)**<br>• Ymgeiswyr sy’n deall y syniad o gopïo neu gysyniad modelau rôl **(1)**<br>• Ymgeiswyr pe byddent yn cysylltu eu hateb ♪’r sefyllfa yn yr astudiaeth achos (**2)**<br>**Ymateb lefel dau (3–4 marc)**<br>• Ymgeiswyr sy’n rhoi esboniad o theori dysgu cymdeithasol; sut mae Charlie’n arsylwi ac yn copïo ymddygiad bechgyn hŷn, a sut mae eu hymateb iddo ef yn ei wobrwyo **(3)**<br>• Ymgeiswyr y mae eu hesboniad yn glir a strwythur eu hateb yn rhesymegol **(4)** | **(4)** |
| | | **(ii)** | **Ymateb lefel un (0–2 marc)**<br>• Gall ymgeiswyr yn syml nodi bod Charlie’n cyfaddef ei fod yn smygu **(1)**<br>• Bydd ymgeiswyr yn rhoi ymateb fel ‘Mae Charlie yn ei weld ei hun yn smygwr’ **(2)**<br>**Ymateb lefel dau (3–4 marc)**<br>• Dylai ymgeiswyr roi esboniad clir o **hunansyniad**, ynghyd â manylion ychwanegol **(3)**<br>• Mae e'n ei weld ei hun fel rhan o grŵp hŷn/ gwrthryfelgar. Mae smygu’n rhoi iddo hunan-barch/statws **(4)** | **(4)** |
| | **(ch)** | **(i)** | Dull ymddygiadol/ymddygiadaeth/addasu ymddygiad | **(1)** |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | | **(ii)** | **Ymateb lefel un (0–3 marc)**<br>Gall ymgeiswyr ar y lefel hon nodi canlyniadau, ond yn cynnig ychydig neu ddim esboniad e.e.<br>• Dylai iechyd wella<br>• Anadl a dillad yn arogli’n fwy ffres<br>• Nid yw rhieni/athrawon mwyach yn ei phoeni<br>**Ymateb lefel dau (4–5 marc)**<br>Dylai ymgeiswyr nodi’r cyfan o’r tri chanlyniad gydag esboniad clir am sut maen nhw’n gwobrwyo e.e.<br>• Teimlo’n well amdanynt eu hunain<br>• Cael mwy o hyder<br>• Yn fwy atyniadol i fechgyn | **(5)** |
| | **(d)** | | **Ymateb lefel un (0–3 marc)**<br>Mae ymgeiswyr yn cynnig esboniadau am smygu, ond nid yw’r rhain yn gysylltiedig â dull seicodynamig e.e.<br>• Pobl yn smygu i ymlacio<br>• Oherwydd eu bod yn credu ei fod yn ffasiynol<br>• Oherwydd pwysau cyfoedion<br>• Oherwydd bod eu ffrindiau’n smygu<br>• Oherwydd nad ydyn nhw’n deall y risgiau<br>**Ymateb lefel dau (4–7 marc)**<br>Yn ychwanegol at gynnig esboniadau am smygu, mae ymgeiswyr yn nodi elfennau o’r dull seicodynamig ond nid ydynt yn ei gysylltu â’r esboniadau e.e.<br>• Mae pobl yn smygu oherwydd eu id/ego<br>• Mae’n isymwybodol/anymwybodol<br>**Ymateb lefel tri (8–10 marc)**<br>Mae ymgeiswyr yn rhoi adroddiad clir o’r dull seicodynamig ac yn cysylltu hyn yn effeithiol ag esboniadau am smygu. | |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | | | Gall y theori gael ei gysylltu ag esboniad yn y mathau hyn o ffyrdd:<br>• Ni all smygwyr esbonio pam maen nhw'n smygu oherwydd bod y rhesymau yn eu hanymwybod/ isymwybod<br>• Daw greddfau/gyriannau anymwybodol o'r id a gall y rhain ein harwain ni i ysmygu<br>• Gall yr uwch-ego wybod a dweud wrthym na ddylem smygu, ond ni all yr ego gadw'r id o dan reolaeth<br>• Mae theori seicoddadansoddol yn awgrymu ein bod yn mynd trwy gamau amrywiol o ddatblygiad, ond mae pobl weithiau'n aros yn yr unfan. Mae'r smygwr wedi aros yng ngham geneuol datblygiad<br>Mae smygu'n enghraifft o isganfyddiad: nid yw sugno'n ymddygiad priodol i oedolion felly mae pobl yn sugno sigaréts yn lle hynny. | **(10)** |
| | | | **Cyfanswm marciau am Gwestiwn 1** | **30 marc** |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| 2 | (a) | | **Dau** o'r canlynol:<br>• Canolbwyntio ar ymddygiad arsylwadwy<br>• Mae ein hymddygiad wedi ei ddysgu<br>• Mae ymddygiad a gaiff ei wobrwyo/atgyfnerthu yn dueddol o gael ei ailadrodd | **(2)** |
| | (b) | | Dylai ymgeiswyr nodi **pedair** o'r nodweddion canlynol:<br>• Mae Nisha'n nodi ymddygiad penodol e.e. taro plant eraill<br>• Mae hi'n sylwi beth mae Jamie'n ei wneud<br>• Mae hi'n sylw beth sy'n digwydd yn union cyn yr ymddygiad<br>• A beth sy'n digwydd ar ôl yr ymddygiad a all weithredu fel gwobr, e.e. sut mae pobl eraill yn ymateb<br>• Mae hi'n cyfri/amseru/cofnodi enghreifftiau o'r ymddygiad | **(4)** |
| | (c) | | **(2 x 1)**<br>Y ffordd y mae pobl eraill yn ymateb i'w ymddygiad:<br>Unrhyw enghraifft debygol o hyn, e.e. sylw gan oedolion/cael gwneud rhywbeth y mae'n ei fwynhau/mynd allan o sefyllfa y mae'n ei chael yn anodd neu'n peri gofid. | **(2)** |
| | (ch) | | **Wyth** o'r canlynol:<br>• Mae'n cynnwys asesiad o ymddygiad presennol Jamie<br>• Mae'n nodi'r ymddygiad penodol i'w newid<br>• Mae'n nodi gwobr/atgyfnerthiad effeithiol<br>• Mae'n atgyfnerthu ymddygiad priodol sy'n digwydd yn fyrfyryr<br>• Mae'n creu cyfleoedd i Jamie ddangos ymddygiad priodol ac yn atgyfnerthu hyn<br>• Mae'n atal rhoi sylw am fod yn ymosodol<br>• Mae'n cofnodi pa mor aml y mae ymddygiad amhriodol yn digwydd<br>• Mae'n adolygu llwyddiant y rhaglen (gyda Lucy)<br>• Mae'n awgrymu sut gall Lucy gynnal y rhaglen hon gartref<br>• Unrhyw ymateb arall teilwng o gredyd | **(8)** |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | (d) | | **Pedwar** o'r canlynol:<br>• Yn siarad gyda therapydd<br>• Yn trafod fel teulu sut maen nhw'n delio â Jamie<br>• Yn trafod fel teulu sut maen nhw'n teimlo am eu sefyllfa<br>• Yn datgelu unrhyw faterion neu broblemau dyfnach, e.e. yn eu perthnasoedd<br>• Yn gweithio ffordd o ddelio â Jamie'n well<br>• Yn gweithio trwy eu teimladau eu hunain am ei gilydd<br>• Unrhyw ymateb arall teilwng o gredyd | **(4)** |
| | (dd) | | **Ymateb lefel un (0–3 marc)**<br>Mae ymgeiswyr yn nodi rhai manteision neu anfanteision un neu'r ddau ddull ond nid yw'r rhain yn gysylltiedig ag amgylchiadau'r bobl yn yr astudiaeth achos e.e.<br>• Mae addas ymddygiad yn hawdd<br>• Mae therapi teulu'n cymryd llawer o amser<br>**Ymateb lefel dau (4–7 marc)**<br>• Mae ymgeiswyr yn nodi manteision ac anfanteision y ddau ddull.<br>• Mae ymgeiswyr ar ben uchaf y band marciau'n gwneud rhai cysylltiadau â'r astudiaeth achos. Dylid rhoi credyd i ymgeiswyr sy'n gwneud cysylltiadau da ond sydd efallai heb ystyried yn llawn fanteision neu anfanteision pob dull.<br>**Ymateb lefel tri (8–10 marc)**<br>• Mae ymgeiswyr yn rhoi manteision ac anfanteision perthnasol pob dull a chaiff y rhain eu cysylltu ag amgylchiadau o leiaf ddau o bobl y sonnir amdanynt yn yr astudiaeth achos e.e.<br>**Manteision addasu ymddygiad:**<br>• Mae addasu ymddygiad yn rhoi i Lucy a Nisha rywbeth y gallan nhw ei wneud ar unwaith<br>• Mae'r ddau wedi bod â rhan yn llunio'r rhaglen ac maen nhw'n rheoli'r rhaglen<br>• Gall gael effaith gyflym ar newid ymddygiad ymosodol Jamie | |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Anfanteision addasu ymddygiad:**<br>• Mae addasu ymddygiad yn rhoi sylw i un ymddygiad yn unig<br>• Nid yw'n rhoi sylw i unrhyw achosion gwaelodol.<br>• Gall amnewid symptomau ddigwydd.<br>• Nid yw'r rhaglen hon wedi cynnwys partner Lucy<br>**Manteision therapi teulu:**<br>• Gallai therapi teulu roi sylw i broblemau ym mherthynas Lucy â'i phartner<br>• Byddai pawb yn y teulu'n cymryd rhan<br>• Gallai arwain at berthnasoedd cynhaliol newydd a strategaethau rheoli<br>**Anfanteision therapi teulu:**<br>• Gall therapi teulu gymryd rheolaeth i ffwrdd o Lucy<br>• Mae angen 'arbenigwr' arni i'w helpu hi<br>• Gall fod rhestr aros, oedi, gall fod yn anodd cadw apwyntiadau<br>Gallent gael eu labelu fel 'teulu problematig'. | **(10)** |
| | | | **Cyfanswm marciau am Gwestiwn 2** | **30 marc** |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| **3** | **(a)** | **(i)** | • Mae labelu'n ffordd symleiddiedig o ddisgrifiad **(1)**<br>• Cafodd ei seilio ar un neu ddwy nodwedd yn unig/mae'n anwybyddu'r hyn sy'n gwneud unigolyn yn arbennig ac yn wahanol **(1)** | **(2)** |
| | | **(ii)** | • Mae stereoteipio'n ffordd or-syml o feddwl am bobl/mae stereoteipiau'n lleihau'r swm o feddwl y mae angen i ni ei wneud **(1)**<br>• Rydyn ni'n meddwl mewn categorïau/yn ymddwyn yn yr un ffordd â phawb yn yr un grŵp **(1)** | **(2)** |
| | **(b)** | | Sut gallai David gael ei weld **(1)**<br>Sut gallai David gael ei drin o ganlyniad **(1)**<br>Sut gallai Agnes gael ei gweld **(1)**<br>Sut gallai Agnes gael ei thrin o ganlyniad **(1)**<br>Byddai unrhyw stereoteipio priodol, yn gadarnhaol neu negyddol, yn dderbyniol am bob un e.e.<br>• David cadarnhaol — ifanc/dioddefwr/ei fywyd cyfan o'i flaen. Wedi ei drin yn dda/yn haeddu help<br>• David negyddol — beiciwr gwyllt/yn cyfrannu at y ddamwain. Wedi ei drin yn wael/nid yw'n haeddu help<br>• Agnes cadarnhaol — hen/i'w pharchu/wedi talu trethi trwy ei hoes. Ni all wneud llawer drosti ei hun/yn haeddu pob help posibl<br>• Agnes negyddol — hen/bregus/yn annhebygol o ailennill ansawdd da o fywyd. Yn annhebygol o elwa ar driniaeth/therapi | **(4)** |
| | **(c)** | | **Ymateb lefel un (0–4 marc)**<br>Mae ymgeiswyr yn darparu rhestr o ffactorau ond nid yw'r rhain wedi eu cysylltu ag unrhyw theori e.e.<br>• Mae Agnes yn hen<br>• Mae David yn mwynhau ei therapi | |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Ymateb lefel dau (5–8 marc)**<br>Mae ymgeiswyr yn dadansoddi ac yn esbonio agweddau David a Agnes gan gyfeirio at sail theori briodol. Mae ymgeiswyr yn debygol o gyfeirio at eu teimladau o hunan-barch ac at eu gwahanol hunansyniadau e.e.<br>• Mae gan David **hunansyniad** cadarnhaol<br>• Mae e'n deall ei anableddau<br>• Mae e am adfer y galluoedd a'r dull o fyw a oedd ganddo, ac sydd gan rai eraill 26 oed<br>• Mae e'n credu y gall wella ac y bydd yn gwella<br>• Mae e'n gweld ei driniaeth fel rhan o'r broses honno.<br>• Mae gan Agnes hunan-barch isel<br>• Gall weld ei strôc fel rhywbeth anochel, mae'n rhywbeth sy'n digwydd ar ei hoed hi<br>• Efallai nad yw Agnes yn disgwyl gwella<br>• Efallai nad yw am wella<br>• Os bydd, bydd yn faich ar eraill<br>• Bydd yn colli ei hurddas a'i hannibyniaeth<br>• Felly mae triniaeth yn amherthnasol neu'n faich iddi. | **(8)** |
| | **(ch)** | | **(1 x 4)** am unrhyw bedwar o'r canlynol:<br>• Siarad â chynghorydd/rhywun a fydd yn gwrando<br>• Nid yw'n aelod o'ch teulu/nid yw'n ffrind<br>• Yn rhoi 'sylw cadarnhaol diamod'<br>• Yn adlewyrchu yn ôl yr hyn a ddywedwch<br>• Nid yw'n barnu<br>• Nid yw'n cynnig cyngor<br>• Yn eich helpu chi i ddatblygu eich **hunansyniad** eich hun<br>• Yn eich helpu chi i ganfod eich atebion/datrysiadau eich hun. | **(4)** |
| | **(d)** | | **Ymateb lefel un (0–3 marc)**<br>• Mae ymgeiswyr yn nodi rhai manteision neu anfanteision ond nid yw'r rhain yn gysylltiedig â sefyllfa David ac Agnes<br>**Ymateb lefel dau (4–7 marc)**<br>• Mae ymgeiswyr yn nodi rhai manteision **ac** anfanteision ond efallai nad yw'r rhain yn gysylltiedig â sefyllfa David neu Agnes. | |

| Cwestiwn | | | Atebion disgwyliedig | Marc a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae ymgeiswyr ar ben uchaf y band marciau'n gwneud rhai cysylltiadau naill ai â David neu Agnes. Dylid rhoi credyd i ymgeiswyr sy'n gwneud cysylltiadau â David ac Agnes, ond nad ydynt efallai'n ystyried manteision ac anfanteision.<br>**Ymateb lefel tri (8–10 marc)**<br>• Mae ymgeiswyr yn rhoi adroddiad clir o fanteision ac anfanteision ac mae'r rhain wedi eu cysylltu'n dda â sefyllfa David ac Agnes.<br>Mae datganiadau perthnasol yn cynnwys:<br>• Gallai David groesawu'r cyfeiriad hwn<br>• Byddai'n ei annog/galluogi i edrych ar sefyllfa ei fywyd gyda<br>• Gyda rhywun sy'n annibynnol, heb fod yn ffrind neu'n deulu<br>• Heb ran yn ei driniaeth glinigol<br>• Gwrandäwr medrus a allai ei helpu i …<br>• Edrych ar ei alluoedd a'i anableddau a sut mae'n teimlo am y rhain<br>• Ailffocysu ei benderfyniad amlwg<br>• Caniatáu iddo ddatblygu **hunansyniad** a fydd yn gadarnhaol, ac yn gweithio iddo yn ei sefyllfa newydd<br>Ar gyfartaledd, gallai fod yn brofiad cadarnhaol a llwyddiannus iddo<br>• Efallai na fydd Agnes mor frwd o blaid y cyfeirio<br>• Nid y math o beth y mae pobl ei hoed hi'n ei wneud<br>• Gallai, serch hynny, fwynhau'r cyfle i siarad â chael clust<br>• Gallai ddisgwyl derbyn cyngor<br>• Efallai na fydd ganddi'r cymhelliad, neu'r gallu i newid ei **hunansyniad**<br>Ar gyfartaledd, gallai fod yn llai llwyddiannus i Agnes | **(10)** |
| | | | **Cyfanswm marciau am Gwestiwn 3** | **30 marc** |
| | | | **CYFANSWM MARCIAU AM Y PAPUR** | **90** |

## Dosbarthiad maes cynnwys

### Uned 12: Deall Ymddygiad Dynol

| | Maes cynnwys | | |
|---|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **12.1** | **12.2** | **12.3** |
| **1 a)** | 2 | | |
| **b i)** | ½ | ½ | |
| **ii)** | ½ | ½ | |
| **iii)** | | 2 | |
| **c i)** | 4 | | |
| **ii)** | | 4 | |
| **ch)** | | 1 | |
| **ii)** | | 5 | |
| **d)** | | 10 | |
| **2 a)** | | 2 | |
| **b)** | | | 4 |
| **c)** | | 2 | |
| **ch** | | 4 | 4 |
| **d)** | | | 4 |
| **dd** | | 5 | 5 |
| **3 a i)** | 2 | | |
| **ii)** | 2 | | |
| **b)** | 4 | | |
| **c)** | 8 | | |
| **ch)** | | 4 | |
| **d)** | | 5 | 5 |
| **Cyfanswm** | **23** | **45** | **22** |

## Gridiau Amcanion Asesu

### Uned 12: Deall Ymddygiad Dynol

| | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 1** | 3 | 8 | 12 | 7 | 30 |
| **Cwestiwn 2** | 4 | 6 | 9 | 11 | 30 |
| **Cwestiwn 3** | 7 | 5 | 9 | 9 | 30 |
| **Cyfanswm marciau** | **14** | **19** | **30** | **27** | **90** |
| **%** | **15.56%** | **21.11%** | **33.33%** | **30.00%** | **100** |

### Dadansoddiad o'r papur

Mae'r targed cyffredinol am bob Amcan Asesu wedi ei seilio ar 10–30% am AA1, 20–30% am AA2, 25–35% am AA3 a 25–35% am AA4, fel y cytunwyd am Uned 4, sydd am bapur â 90 o farciau'n rhoi:

14 marc am AA1

19 marc am AA2

30 marc am AA3

27 marc am AA4

Mehefin 2005

Am ragor o wybodaeth am gymwysterau Edexcel a BTEC cysylltwch â
Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0870 240 9800
neu http://enquiries.edexcel.org.uk
neu ymwelwch â'n gwefan: www.edexcel.org.uk

Edexcel Cyfyngedig. Yn gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 4496750
Swyddfa Gofrestredig: One90 High Holborn, Llundain WC1V 7BH